## Lansio rhaglen anemia amdriniaethol

Datblygodd ffrwd waith y grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) lwybr cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021, i adnabod, trin a rheoli cleifion sydd wedi cael eu darganfod fel bod ag anemia amdriniaethol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r llwybr cenedlaethol o fewn Byrddau Iechyd, bu BHNOG yn llwyddiannus mewn derbyn cyllid ar gyfer rhaglen weithredu 2 flynedd gan Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth. Y canlyniadau a fwriedir ar gyfer y rhaglen yw cynnwys egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (PBM) yn y lleoliad amdriniaethol, i sicrhau bod cleifion sydd i fod i gael llawdriniaeth yn cael yr un cyfle i gael triniaeth os ydynt yn anemig. Bydd hyn yn lleihau trallwysiad y gellir ei osgoi oherwydd anemia, yn lleihau'r amser mae cleifion yn gorfod aros yn yr ysbyty, ac yn gwella canlyniadau clinigol i gleifion. Mae'r Rhaglen yn cael ei harwain a'i rheoli gan Wasanaeth Gwaed Cymru. Mae'n bleser gennym gyflwyno aelodau o dîm y rhaglen isod:




Neges gan arweinydd clinigol y rhaglen Anemia, Dr Caroline Evans, anesthetydd ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

"Mae darganfod a thrin anemia yn rhan annatod o egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (Patient Blood Management), ac o optimeiddio canlyniadau i gleifion sy'n cael llawdriniaeth fawr. Mae'r prosiect Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth hwn wedi ein galluogi i godi ymwybyddiaeth mewn cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am gleifion llawfeddygol, a sicrhau bod gan bob claf ar draws Cymru fynediad i addysg, sgrinio a thriniaeth ar gyfer anemia cyn llawdriniaeth, yn yr un ffordd. Bydd y prosiect hwn yn gwneud Cymru yn un o'r cenhedloedd mwyaf blaenllaw mewn darparu'r set o egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (Patient Blood Management).

Gair gan ein Cyfarwyddwr yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, Alan Prosser:

"Mae'r prosiect hwn yn dangos ymrwymiad a rôl hanfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru yng ngofal iechyd y boblogaeth, drwy hyrwyddo egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (Patient Blood Management) yn y lleoliad amdriniaethol.

Yn sgil ein llwyddiant yn sicrhau cyllid gan Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth a recriwtio tîm arbenigol, byddwn yn sicrhau bod pob claf yng Nghymru yn cael yr un cyfle i gael eu hasesu ar gyfer anemia a lle bo'n briodol, yn cael eu trin cyn llawdriniaeth. Bydd hyn yn lleihau trallwysiadau y gellir eu hosgoi, yn

darparu gwell canlyniadau i gleifion llawfeddygol, yn diogelu'r gadwyn gyflenwi gwaed, ac yn cadw gwaed i gleifion sydd ei angen."

Gair gan gadeirydd BHNOG, Dr Brian Tehan:

"Rydym yn falch iawn bod gan Gymru y cynllun Iechyd Gwaed ac yn sgil hynny, ffocws clir ar ddarparu gofal gwerth uchel. Mae adnabod a rheoli anemia yn elfen allweddol, sydd o fudd i wella lles cleifion a helpu i wella diogelwch cleifion. Mae'r rhaglen anemia amdriniaethol yn fenter gyffrous, ac yn un sydd mor bositif fel ein bod yn edrych ymlaen at ei gweld yn darparu manteision enfawr dros y blynyddoedd i ddod. '

Byddwn yn cynnal cyfarfod i randdeiliaid ar ddydd Iau 15 Mehefin 2023; os hoffech gofrestru eich diddordeb / mynychu neu os hoffech gael mwy o wybodaeth am y rhaglen, e-bostiwch: WBS.BloodHealthTeam@wales.nhs.uk

**#Anaemia #perioperativemedicine #bloodmanagement #qistanaemia**